



5-8 munud

Amcan a Ffocws Cerddorol

Cyfansoddi; Chwarae gyda Seiniau; Chwarae mewn Ensemble

Offerynnau?

Na

Hygyrchedd

Mae'n addas i blant sydd â namau echddygol neu wybyddol, neu nam ar y golwg neu'r clyw, gyda mân addasiadau.

1. Gweithgaredd i Gynhesu

Sownd

Mae hwn yn weithgaredd i gynhesu pawb ac i lenwi'r plant ag egni er mwyn dechrau creu cerddoriaeth. Nod y gêm ydi bod y plant yn rhoi darnau o'u corff yn sownd i wrthrychau gwahanol mor gyflym â phosib.

I ddechrau, bydd yr athro yn gweiddi enw darn o'r corff, er enghraifft 'penelin' ac wedyn yn gweiddi enw gwrthrych, er enghraifft 'bwrdd' a bydd yn rhaid i'r plant roi eu penelin ar eu bwrdd. Gwnewch yn siŵr na fyddan nhw'n taro mewn i unrhyw beth!

I wneud y gêm yn anoddach, yn lle gweiddi gwrthrychau penodol, gallai'r athro weiddi enwau lliwiau neu ddeunyddiau i'r plant fynd yn sownd iddyn nhw.

Estyniad: Gofynnwch i'r plant arwain, gydag un plentyn yn gweiddi enw darn o'r corff a phlentyn arall yn gweiddi enw'r gwrthrych/lliw/deunydd.

2. Cân: Take You Home

Gwrandewch ar y gân *Take You Home*.

Trafodwch y gerddoriaeth fel dosbarth: Sut byddech chi'n disgrifio'r gerddoriaeth? Pa offerynnau gallwch chi eu clywed? Am beth mae'n gân yn sôn? Beth ydych chi'n meddwl amdano pan fyddwch chi'n gwrandeo ar y gerddoriaeth? Sut mae'r gerddoriaeth yn gwneud i chi deimlo?

Dysgwch linell agoriadol y gân i'ch dosbarth:

There's music in your ears wherever you shall go



10 munud





20 munud



Chwaraewch y gân *Take You Home* drwy ddefnyddio adnodd rhyngweithiol *Bring the Noise: Play It!* ar ein gwefan.



Gallwch arddangos gwaith pob pâr a gweld os bydd y plant sy'n gwrando yn gallu dyfalu pa ddisgrifiad mae pob perfformiad yn ceisio ei gynrychioli.



Wrth gyfansoddi'r strwythur yma, gofynnwch i'r plant i feddwl am daith/stori y seiniau yma.

Nawr dewch â'r parau at ei gilydd i greu grwpiau mwy o 4 neu 6 o blant. Gan fod y parau wedi dod at ei gilydd, bydd 2 neu 3 o seiniau gwahanol o'r rhestr wreiddiol fesul grŵp. Gofynnwch i'r grwpiau drefnu pryd byddan nhw'n gwneud eu seiniau. Er enghraifft:

sain 1 - sain 2 - sain 3

sain 1 - sain 2 - sain 1 - sain 3 - pob sain gyda'i gilydd

sain 1 a 2 - sain 3 - seiniau 1 a 3



Cofiwch hybu gwrando gweithredol gyda'r gweithgaredd Ditectif Sain. Gallwch wyllo sut caiff ei chwarae yn ein hadran Teacher Techniques.

Os oes gennych chi offerynnau, rhannwch nhw i bob grŵp, gan wneud yn siŵr bod cymysgedd o soniaredd. Gofynnwch i'r grwpiau drosglwyddo'r seiniau maen nhw wedi'u gwneud yn defnyddio eu lleisiau a/neu eu corff i'r offerynnau.

Yn olaf, gofynnwch i bob grŵp berfformio eu portreadau cerddorol o'r seiniau bob dydd maen nhw'n eu clywed i'r grwpiau eraill.

4. Datrys problemau

Gwnewch yn siŵr bod digon o amser i arbrofi pan fyddan nhw'n cyfansoddi eu seiniau.

Pan fydd y gweithgaredd yn symud ymlaen i ddefnyddio offerynnau, gofynnwch i'r plant feddwl yn ofalus pa offerynnau sy'n swnio fwyaf tebyg i'r seiniau maen nhw'n ceisio eu cynrychioli, a pheidio â dim ond defnyddio eu hoff offeryn!

Cysylltiadau â'r Cwricwlwm

Llythrennedd,
Daearyddiaeth



Allweddeiriau

Defnyddio'r corff fel offeryn taro: Seiniau sy'n cael eu gwneud drwy ddefnyddio eich corff.

Motiff: Syniad cerddorol byr.

Soniarredd: Ansawdd sain offeryn.